

Ordinhad 3 Yr Is-Ganghellor

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu diwethaf: Mai 2020

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2022

ORDINHAD 3

YR IS-GANGHELLOR

1. Penodi Is-Ganghellor

1. Pan yw swydd yr Is-Ganghellor yn wag, neu ar fin dod yn wag, bydd y Cyngor yn penodi pwyllgor dewis a fydd yn cynnwys yr aelodau canlynol (ni fydd yr un ohonynt yn gymwys i wneud cais am y swydd wag):
 1. Aelodau yn rhinwedd eu swydd:
 1. Cadeirydd y Cyngor;
 2. Dirprwy Gadeirydd y Cyngor;
 2. Tri aelod annibynnol a benodir gan ac o blith aelodau'r Cyngor;
 3. Un aelod a benodir gan ac o blith aelodau'r Senedd (gyda'r gallu i benodi aelod wrth gefn);
 4. Is-Ganghellor neu Bennaeth sefydliad prifysgol arall.
2. Cadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio cyfarfodydd o'r pwyllgor dewis.
3. Clerc y Cyngor fydd Ysgrifennydd y pwyllgor dewis.
4. Bydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor dewis.
5. Bydd gan y pwyllgor dewis y pŵer i bennu ei ddull gweithredu.
6. Cworwm cyfarfodydd y pwyllgor dewis fydd pump aelod.
7. Bydd y pwyllgor dewis yn cyflwyno i'r Cyngor, i'w gymeradwyo, adroddiad o'i argymelliadau ynglŷn â phenodi Is-Ganghellor.
8. Bydd y Cyngor yn penodi Is-Ganghellor ar yr amodau a'r telerau y mae'n eu hystyried yn addas.

2. Dyletswyddau'r Is-Ganghellor

1. Yr Is-Ganghellor fydd prif swyddog academiaidd, gweinyddol a chyfrifyddol y Brifysgol a deiliad y swydd hon sydd yn gyfrifol i'r Cyngor
 1. am gynnal a hyrwyddo effeithiolrwydd a threfn dda yn y Brifysgol mewn dull cynaliadwy;
 2. gwneud argymelliadau i'r Cyngor;
 3. rhoi strategaeth a phenderfyniadau'r Cyngor ar waith;
 4. cyflenwi amcanion y cytunwyd arnynt;
 5. amddiffyn enw da'r Brifysgol;
 6. rhoddi dyfarniadau, graddau ac anrhydeddau eraill i unigolion fel a gymeradwyir gan y Senedd a'r Cyngor.
2. Gall yr Is-Ganghellor enwebu unigolyn i ddirprwyo a bod yn bresennol ar ei ran/rhan yn unrhyw un o gyfarfodydd corff neu bwyllgor.

3. Penodi Is-Ganghellor Dros-Dro

1. Os yw'r Is-Ganghellor yn absennol am dros 3 mis neu os daw swydd yr Is-Ganghellor yn wag, gall y Cyngor benodi Is-Ganghellor dros-dro ar argymhelliad pwyllgor dewis a sefydlir i'r diben hwnnw.

2. Aelodau'r Pwyllgor Dewis fydd (ni fydd yr un ohonynt yn gymwys i wneud cais am y swydd wag):
 1. Aelodau yn rhinwedd eu swydd:
 1. Cadeirydd y Cyngor;
 2. Dirprwy Gadeirydd y Cyngor;
 2. Dau aelod annibynnol a benodir gan ac o blith aelodau'r Cyngor;
 3. Un aelod a benodir gan ac o blith aelodau'r Senedd;
3. Cadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio cyfarfodydd o'r pwyllgor dewis.
4. Clerc y Cyngor fydd Ysgrifennydd y pwyllgor dewis.
5. Bydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor dewis.
6. Bydd yr Is-Ganghellor Dros-Dro yn gweithredu tan y bydd deiliad presennol y swydd yn ailgydio yn y dyletswyddau, neu tan y gwneir penodiad parhaol, neu am ba gyfnod bynnag a bennir gan y Cyngor.